



DEDDF SAFONAU GOFAL 2000

CAIS I GOFRESTRU ASiantAETH FAETHU NODIADAU I YMGEISWYR

Contents

1. Pwrpas.....	3
2. Pam fod yn rhaid i mi gofrestru?	3
3. Sut yr awn ni ati i benderfynu a ydych chi'n berson addas?	4
4. Sut y byddwn ni'n cadarnhau eich gwybodaeth a'ch adnoddau?	5
5. Sut y byddwn ni'n sicrhau eich bod yn cyflogi ac yn cefnogi staff a chanddynt y cymwysterau, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau priodol?	6
6. Sut yr awn ni ati i archwilio'r adeilad?	6
7. Sut y byddwn ni'n archwilio eich ffordd arfaethedig o weithio?	6
8. Y camau nesaf.....	7
9. Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth rydym yn ei derbyn gennych.	7
10. Casgliad.....	7

1. Pwrpas

1.1. Y mae'r nodiadau hyn i ymgeiswyr yn berthnasol i unigolion ac i sefydliadau sy'n dymuno ymgeisio i redeg Asiantaeth Faethu. Os mai sefydliad sy'n ymgeisio, bydd yn rhaid dynodi'r 'unigolyn â chyfrifoldeb' a fydd yn gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o reoli'r asiantaeth.

1.2. Gobeithiwn y bydd y nodiadau hyn o gymorth i chi wrth:

- ddeall y pethau y dylech eu hystyried cyn ymgeisio i gofrestru, a
- dechrau deall beth y bwriedir i Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 a'r "Safonau Gofynnol Cenedlaethol" ar gyfer Gwasanaethau Maethu eu cyflawni a pha ran y maent yn ei chwarae yn y broses gofrestru.

1.3. Ar ôl i chi ddarllen y nodiadau hyn a'r dogfennau eraill a ddarperir, gobeithiwn y bydd gennych syniad am:-

- yr hyn sydd angen digwydd cyn y byddwch chi'n barod i gyflwyno eich cais;
- yr hyn a wnawn ni pan fyddwn yn derbyn eich cais, a
- yr hyn y byddwn yn chwilio amdano.

1.4. Oherwydd bod darparu gofal maeth i blant a phobl ifanc ddiymgeledd yn eu rhoi mewn sefyllfa lle gallent fod dan fygythiad, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn er mwyn gwneud yn siŵr fod popeth fel ag y dylai fod, cyn y gellir cofrestru asiantaeth. Rhaid cwblhau'r broses gofrestru cyn y gall asiantaeth ddechrau gweithredu.

1.5. Y mae'r broses hon, o anghenraid, yn fanwl ac yn ymwthiol yn ei hanfod. Yr ydym am i chi wybod felly y bydd y wybodaeth a gasglwn yn cael ei thrin gyda gofal ac yn gyfrinachol ar bob adeg. Yr ydym am i chi wybod hefyd y bydd arolygwyr yn gweithio gyda chi er mwyn gwneud yn siŵr y caiff popeth ei wneud yn y ffordd orau bosibl. Rhan bwysicaf ein gwaith yw sicrhau bod plant y gallent fod yn ddiymgeledd yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel a'n nod wrth roi sylwadau ar eich cynigion yw eich helpu i fodloni a rhagori ar ofynion [Deddf Safonau Gofal 2000, y Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#).

1.6. Mae cwblhau'r broses gofrestru yn gofyn am lawer iawn o waith ar ran yr ymgeisydd a'r rheoleiddiwr, fel ei gilydd. O'i wneud yn iawn, sefydlir sylfaen gadarn ar gyfer y berthynas reoleiddio yn y tymor hwy.

2. Pam fod yn rhaid i mi gofrestru?

2.1 Mae'r gyfraith yn rheoleiddio unrhyw un sy'n rhedeg neu sy'n rheoli gwasanaeth maethu yng Nghymru. Pwrpas gwaith rheoleiddio o'r fath yw:

- gwneud yn siŵr eich bod yn addas i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn,
- cadarnhau bod gennych y wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu a chynnal gwasanaeth o safon uchel,
- sicrhau y byddwch yn cyflogi ac yn cefnogi staff sy'n meddu ar gymwysterau, profiad, gwybodaeth a sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth y bwriadwch ei ddarparu,
- cadarnhau bod unrhyw adeilad yr ydych yn ei ddefnyddio fel swyddfa yn addas at y diben,
- gwneud yn siŵr fod y ffordd yr ewch ati i redeg eich gwasanaeth a chadw cofnodion yn foddhaol ac y bydd, yn y dyfodol, yn ein helpu ni i archwilio ansawdd y gwasanaeth yr ydych chi'n ei gynnig.

2.2 Mae'r adrannau a ganlyn yn ymdrin â phob un o'r pwyntiau hyn yn eu tro.

3. Sut yr awn ni ati i benderfynu a ydych chi'n berson addas?

3.1 Byddwn yn ceisio gwneud hyn drwy'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen gais a'r papurau y gofynnwn i chi eu llenwi ar yr un pryd.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr mai chi yw'r person y dywedwch yr ydych chi, trwy edrych ar eich tystysgrif geni, eich pasbort, eich tystysgrif priodas ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill.
- Byddwn yn edrych i mewn i'ch hanes. Byddwn yn cynnal profion gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn gofyn am dystlythyrau personol, proffesiynol ac ariannol.
- Byddwn yn archwilio eich iechyd corfforol ac emosiynol. Byddwn yn anfon copi o'r hanes meddygol a gyflwynwch i ni at eich meddyg ac at unrhyw arbenigwr(wyr) sydd wedi eich trin, ac yn gofyn iddynt am eu sylwadau.

Yn ôl y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyd, (1974) at y rhan fwyaf o ddibenion, ar ôl cyfnod penodol, nid oes raid i bobl ddatgan eu heuogfarnau.

DYLECH NODI NAD YW HYN YN BERTHNASOL I'CH CAIS I GAEL EICH COFRESTRU I REDEG ASiantaeth Faethu

3.2 Mae hyn yn bwysig, oherwydd os oes gennych chi neu unrhyw un arall unrhyw euogfarnau, bydd angen i ni benderfynu a yw'r deunydd a ddatgelwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eich gwneud yn anaddas i weithredu yn y rôl yr ydych yn gwneud cais yn ei chylch. Byddwn yn ystyried yn ofalus eich oed ar y pryd, eich amgylchiadau personol bryd hynny ac ar hyn o bryd ac i ba raddau ei bod yn debygol y bydd yr agwedd hon ar eich cymeriad yn effeithio ar y gofal y byddech, o bosibl, yn ei ddarparu yn awr. Y mae'n bosibl i geisiadau dan amgylchiadau o'r fath gael eu cymeradwyo.

- 3.3 Fodd bynnag, os ydych chi'n peidio â datgan unrhyw euogfarn neu rybudd sy'n berthnasol i unrhyw drosedd, gallai ymddangos fel eich bod yn ceisio celu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i'ch cais. Os yw rhywun yn anonest er mwyn cael eu cofrestru, nid yw mwyach yn berson addas.
- 3.4 Dylech nodi y bydd eich cofnod o euogfarnau a rhybuddiadau wedi ei gynnwys yn y dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a anfonir atoch. Cyn y gallwn ni benderfynu ar eich cais i gofrestru bydd angen i ni weld y copi gwreiddiol o dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 3.5 Fel y sawl a fydd yn gweithredu'r asiantaeth, bydd yn rhaid i chi sicrhau bod archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi eu cynnal ar gyfer pob aelod o'ch staff. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid i chi gofrestru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gellir cysylltu â hwy naill ai yn y cyfeiriad a ganlyn: *Criminal Records Bureau, PO Box 165 Liverpool L69 3JD* neu drwy ymweld ag [DBS](#). Fel arall, y mae nifer o gyrff ymbarél wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gallent hwy gynnal yr archwiliadau hyn ar eich rhan.
- 3.6 Gall AGC, ar unrhyw adeg, ofyn i chi ddangos eich bod wedi archwilio hanes pob aelod staff hyd at y safon ofynnol.

4. Sut y byddwn ni'n cadarnhau eich gwybodaeth a'ch adnoddau?

- 4.1 Mae safonau wedi'u pennu ar gyfer y profiad, y cymwysterau, y wybodaeth a'r sgiliau y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig ac unrhyw aelodau staff feddu arnynt. Byddwn yn ceisio bodloni ein hunain eich bod yn cyrraedd y safonau hyn drwy'r wybodaeth a ddarperir yn nwy ran eich ffurflen gais ac mewn cyfweiliad ffurfiol.
- Gofynnwn i chi roi cofnod llawn o'r hyn yr ydych wedi ei wneud ers gadael yr ysgol. Bydd hynny'n cynnwys cyfnodau astudio, gwaith di-dâl a chymwysterau yr ydych wedi ymgymryd â hwy.
 - Byddwn yn cadarnhau gyda chyflogwyr blaenorol yn ôl yr angen hyd yn oed os na fyddwch wedi'u henwi fel canolwyr, er mwyn sefydlu pa sgiliau a phrofiad perthnasol sydd gennych.
 - Byddwn yn edrych ar unrhyw gyrsiau hyfforddi yr ydych wedi'u mynychu ac, yn ôl yr angen, yn cadarnhau manylion yr hyn a astudiwyd. Yn achos cymwysterau, byddwn yn gofyn am gael gweld eich tystysgrifau ac, o bosib, yn cadarnhau'r manylion gyda'r corff dyfarnu.
 - Os nad yw'r profiad a'r cymwysterau angenrheidiol gennych i gael eich cofrestru i fod yn rheoli eich hunan o ddydd i ddydd, y mae'n bosib i chi gyflogi rheolwr/wraig i wneud y dasg honno. Bydd gofyn i'r rheolwr/wraig gyflwyno cais a chaiff yr un archwiliadau eu cynnal yn ei achos ef/hi.

- Caiff rhywfaint o'r gwaith cadarnhau hwn ei wneud drwy gyfrwng cyfweiliad person addas. Caiff y broses hon ei chwblhau cyn i benderfyniad ffurfiol gael ei wneud ynghylch a ydych i gael eich cofrestru a pha amodau, os o gwbl, fydd yn berthnasol i'ch cofrestriad.

5. Sut y byddwn ni'n sicrhau eich bod yn cyflogi ac yn cefnogi staff a chanddynt y cymwysterau, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau priodol?

5.1 Bydd ystod a nifer y staff ynghyd â'r cymwysterau, profiad, gwybodaeth a sgiliau perthnasol yn dibynnu ar natur a maint yr asiantaeth yr ydych yn bwriadu ei gynnal. Amlinellir y gofynion hyn yn fras yn y safonau. Bydd angen i chi drafod y cynlluniau staffio penodol ar gyfer eich asiantaeth gyda'r arolygydd.

6. Sut yr awn ni ati i archwilio'r adeilad?

6.1 Gan weithio ar y wybodaeth yn y ffurflen gais ac ar sail ymweliad neu ymweliadau safle â'r adeilad y bwriadwch ei ddefnyddio, byddwn yn sicrhau:

- bod gennych reolaeth ddigonol dros yr adeilad y bwriadwch ei ddefnyddio er mwyn sicrhau y gall aelodau staff ac eraill sydd â chysylltiad priodol gael mynediad iddo yn ystod oriau swyddfa arferol.
- bod yr adeilad ac unrhyw gofnodion yr ydych yn eu cadw – pa un ai ar system TG neu fel arall yn ddiogel.
- bod yr adeilad yn cynnwys y cyfarpar priodol.
- bod yr adeilad arfaethedig a'r cynnwys wedi'u hyswiro'n ddigonol.

7. Sut y byddwn ni'n archwilio eich ffordd arfaethedig o weithio?

7.1 Byddwn yn edrych yn ofalus yn Rhan 2 y ffurflen gais ar yr hyn y dywedwch wrthym y byddwch yn ei wneud er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Byddwn yn defnyddio cyfweiliad neu gyfweiliadau "Person Addas" ffurfiol er mwyn trafod unrhyw un o'ch atebion lle yr ydym o'r farn nad oes gennym ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad. Byddwn yn:

- edrych ar eich dull arfaethedig o fodloni pob un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- archwilio eich cynlluniau i asesu a yw'r wybodaeth a nodwyd yn ddigonol i gadarnhau'r Datganiad o Ddiben.
- edrych yn fanwl i weld sut yr ydych chi'n bwriadu asesu, dethol a pharatoi staff a'r cofnodion yr ydych yn bwriadu eu cadw.
- edrych ar y ffordd yr ydych yn bwriadu asesu a chyflwyno unigolion i'ch gofal.
- archwilio'r dogfennau a'r wybodaeth yr ydych yn bwriadu eu rhoi i blant ac i ofalwyr a'r ffordd yr ydych yn bwriadu eu defnyddio.
- asesu addasrwydd y polisiâu y bwriadwch eu defnyddio yn ofalus iawn.
- ystyried sut y bwriadwch gadw'r cofnodion y mae'n ofynnol i chi eu cadw.

- edrych ar y modd y bwriadwch ddefnyddio eich amser chi ac amser y staff ac ar yr ystod o gyfleoedd y bwriadwch eu cynnig i blant ac i ofalwyr.
- dymuno deall sut y byddwch chi'n rheoli ac yn monitro ansawdd yr holl agweddau ar y gwasanaeth a gynigiwch ac yn cadw rheolaeth arnynt.

8. Y camau nesaf

8.1 Byddem yn awgrymu eich bod, yn awr yn edrych yn fanwl ar y Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol perthnasol ar gyfer y gwasanaeth y bwriadwch ei gynnig. Gellir cael gafael ar Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 a'r Safonau cyfatebol drwy wefan AGC yn: www.arolygiaethgofal.cymru

8.2 Ar ôl i chi wneud hyn, gobeithiwn y bydd strwythur, diben a gofynion y ffurflenni cais sydd ynghlwm, sef Rhan 1 ar gyfer cais unigol a Rhan 1B ar gyfer sefydliadau, 1A (Rheolwr), Rhan 2 (tystiolaeth o allu i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol), y Cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r Datganiad Meddygol a'r ymholiad ariannol i gyd yn dod yn gliriach. Ble ceir cais gan sefydliad, cynhelir archwiliadau ar yr unigolyn cyfrifol a bydd yn rhaid wrth wybodaeth ychwanegol am y sefydliad ei hun.

8.3 Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar yr adeg hon ynghylch y gofynion a'r broses, byddem yn falch iawn o drafod y rhain. Dylech nodi, fodd bynnag, mai eich lle chi yw paratoi a strwythuro eich cais ac y dylech fod yn barod i gael cyngor gan eich ffynonellau annibynnol eich hun. **Eich lle chi yw dangos y byddwch yn gallu bodloni – a pharhau i fodloni - gofynion y Rheoliadau a'r Safonau.** Eich cyfrifoldeb chi yw darparu dystiolaeth at y diben hwn. Byddai'n amlwg yn amhriodol i'ch rheoleiddiwr at y dyfodol fod yn gysylltiedig â'r gwaith o'ch cynghori ynghylch union natur y risgiau, y dewisiadau a'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'ch busnes.

9. Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth rydym yn ei derbyn gennych.

9.1 Rydym yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol a/neu sensitif sydd gennym amdanoch yn deg ac yn gyfreithlon, a byddwn ond yn holi am wybodaeth o'r fath pan fydd ei hangen arnom er mwyn cyflawni ein rôl. Am fwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data personol, a'ch hawliau mewn perthynas â hyn, ewch i'n <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol> neu cysylltwch â ni am gopi papur.

10. Casgliad

10.1 Fel y gwelwch chi, y mae'r broses yn gymhleth, yn drwm ac yn fanwl. Gall paratoi cais boddhaol olygu buddsoddi amser sylweddol ar y cychwyn a rhywfaint o gostau anochel hefyd. Serch hynny, ein cred ni, fel y nodwyd ar ddechrau'r esboniad hwn, yw bod y broses o baratoi a sicrhau cofrestrriad yn

rhoi cyfle i osod sylfeini cadarn ar gyfer perthynas reoleiddio rhwng y darparwyr cofrestredig ac AGC at y dyfodol.

10.2 Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y bydd y broses a'r gofynion yn glir ac y bydd y broses reoleiddio yn dryloyw. Gobeithiwn y byddwch yn canfod mai dyma yw'r sefyllfa ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.